**Addasiadau gan Weithgor Bwrdd y Brifysgol ar gyfer Dysgu Drwy Gyfrwng y Gymraeg i'r Cynllun isod i'w cyflwyno i Bwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad ar 24 Ebrill 2002**

# CANOLFAN GENEDLAETHOL

**ar gyfer**

# Cefnogi Cyfrwng Cymraeg mewn Addysg Uwch

**Ebrill 2002**

## RHAGARWEINIAD

Yn dilyn gwahoddiad gan Bwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes Cynulliad Cenedlaethol Cymru (sy'n gweithredu ar ran y Pwyllgor Diwylliant) i gyfrannu at adolygiad polisi'r iaith Gymraeg mewn addysg, bydd Bwrdd y Brifysgol ar gyfer Dysgu Drwy Gyfrwng y Gymraeg yn cyflwyno tystiolaeth ar 24 Ebrill 2002. Ers pan gyflwynwyd y papur cyntaf i'r Pwyllgor Addysgu a Dysgu Gydol Oes yng Ngorffennaf, 2001, bu ymgynghori helaethach ar ei gynnwys ac mae'r papur hwn yn cynnwys ffrwyth yr ymgynghori hwnnw gan ei fod wedi arwain at well dealltwriaeth o'r anghenion sylfaenol ar gyfer cynnydd yn y maes. Ceir cytundeb ar y ffaith mai'r prif angen yw fframwaith cadarnach a fydd yn rhoi blaenoriaeth i hybu addysgu, dysgu a dysg trwy'r

Gymraeg yn ei holl agweddau, yn genedlaethol ac yn sefydliadol. Mae'n cynnwys cynyddu galw am gyrsiau cyfrwng Cymraeg, creu'r galw mewn meysydd newydd a chynyddu niferoedd y staff cyfrwng Cymraeg. O fewn y fframwaith cynhwysol hwnnw mae rôl y Ganolfan wedi ei ddiffinio'n gliriach.

Yn ogystal, ymddangosodd dwy ddogfen bwysig, - yr *Adolygiad Polisi Addysg Uwch* a'r Strategaeth *'Ymgeisio yn Uwch'* a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Addysg ym Mawrth, 2002, - a rhoddwyd ystyriaeth i gynnwys y dogfennau hynny wrth addasu.

1.1 Ystyriwyd y canlynol, felly, wrth adolygu'r Cynllun:

i. Yr ymgynghori helaethach a fu rhwng cyflwyno'r cynlluniau gwreiddiol yng Ngorffennaf, 2001 a Chwefror, 2002, yn arbennig felly ym Mhrifysgolion Cymru, Aberystwyth a Bangor a Choleg y Drindod, Caerfyrddin.

ii. Argymhellion yr *Adolygiad Polisi Addysg Uwch*, yn arbennig .

   - Pennod 3: Argymhelliad 5:
     *'Y dylai ELWa - CCAUC baratoi strategaeth ar gyfer datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys asesiad o'r galw a chan gymryd i ystyriaeth y cynigion a wnaed gan y Bwrdd Dysgu Trwy Gyfrwng y Gymraeg'.*
   - Pennod 3: Argymhelliad 6:
     *'Y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gyllido canolfan ar gyfer cynhyrchu deunyddiau dysgu yn y Gymraeg wedi'i seilio yn Aberystwyth, Bangor a Choleg y Drindod, Caerfyrddin ond gyda chysylltiadau â phob rhan o'r sectorau addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru'*.
   - Pennod 9: Argymhelliad 5 (pwynt bwled 3):
     *'Y dylai ELWa – CCAUC hwyluso cydweithio rhwng Aberystwyth, Bangor a Choleg y Drindod, Caerfyrddin, i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ar sail cynigion y Bwrdd Dysgu trwy Gyfrwng y Gymraeg.'*

i. Cyhoeddi'r strategaeth ar gyfer y sector Addysg Uwch yng Nghymru yn y ddogfen *'Ymgeisio yn Uwch'* sy'n nodi:

   "*Dymunwn weld sector AU sy'n ymatebol i unigolion, gan gynnwys rhai sy'n dymuno astudio rhannau o'u cyrsiau gradd trwy gyfrwng y Gymraeg. Dros amser, dylid ystyried hyn yn rhan o'r ddarpariaeth brif-ffrwd sy'n cwmpasu detholiad o gyrsiau a modiwlau."*

   ac yn cynnwys yr argymhellion:

   *"Byddwn yn gwahodd CCAUC i gomisiynu adroddiad ar lefelau presennol y galw a'r cyflenwad am addysg uwch cyfrwng Cymraeg, y tueddiadau a ragamcenir o ran galw, a'r camau y dylid eu cymryd i gynyddu'r galw."*

*"Byddwn yn sicrhau bod CCAUC yn cynnal trafodaethau â'r Bwrdd Dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg i ganfod y ffordd orau o fodloni'r galw."*

ii. Trafodaethau cyhoeddus a fu yn y Wasg ac ar y cyfryngau Cymraeg yngl•n â'r Cynllun gwreiddiol.

iii. Penderfyniad unfrydol y Bwrdd Dysgu Drwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfarfod 16 Tachwedd, 2001,y :
*'Dylid sefydlu gweithgor ar gyfer datblygu strwythur i edrych ar ffyrdd o sicrhau digonolrwydd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y system Addysg Uwch yng Nghymru'.*

1.2 Yn gysylltiedig â 1.1 (v) uchod, mae Bwrdd y Brifysgol ar gyfer Dysgu Trwy'r Gymraeg eisoes wedi sefydlu Gweithgor i edrych yn fanylach ar sut y byddai gwaith y Ganolfan Gefnogi yn plethu i strwythur a strategaeth fwy cyflawn ar gyfer ymestyn y Gymraeg yn gyfrwng yn y sector. Golyga hynny:

- gynllunio a sefydlu strwythurau mwy cadarn a chyflawn (ar draws ac o fewn sefydliadau) a fydd yn fodd i normaleiddio ac ymestyn cyfrwng Cymraeg yn hytrach na'i lesteirio
- cynllunio a sefydlu strategaethau cenedlaethol a sefydliadol a fydd yn fodd i gyflawni pwynt (i)
- rhoi nod mwy eglur i'r Ganolfan, sef un o **gynllunio, cynghori a chydlynu** darpariaethau cyfrwng Cymraeg o fewn y sector
- addasu ddogfen wreiddiol yn sgîl y trafodaethau a'r cyhoeddiadau diweddar gan y Pwyllgor Addysgu a Dysgu Gydol Oes a'r Gweinidog Addysg

1.3 Mae'r Gweithgor yn cynnwys 10 aelod, gyda 6 ohonynt yn dysgu'n llawn amser yn y sector yn ogystal â dal swyddi allweddol eraill yn eu colegau, ac mae'n gweithredu o dan gadeiryddiaeth

Yr Athro M.Wynn Thomas (Prifysgol Cymru Abertawe).

Yr aelodaeth yn llawn yw:

Dr Cen Williams (Swyddog Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg)

Ruth Ab Ieuan (Ysgrifennydd)

Mr Heini Gruffudd (Prifysgol Cymru Abertawe)

Mr Ifor Gruffydd (Prifysgol Cymru, Caerdydd)

Dr Richard Wyn Jones (Prifysgol Cymru, Aberystwyth)

Dr Ioan Matthews (Coleg y Drindod, Caerfyrddin)

Dr Delyth Morris (Prifysgol Cymru, Bangor)

Yr Athro Gareth Roberts (Prifysgol Cymru, Bangor)

Yr Athro Ioan Williams (Prifysgol Cymru, Aberystwyth).

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o'r Gweithgor ddydd Iau, 28 Chwefror 2002 yng Ngregynog

a phrif bwrpas y cyfarfod oedd addasu'r Cynllun gwreiddiol yn sgîl y trafodaethau.

4. Wrth wneud hynny, gosododd y Gweithgor ddau nod iddo'i hun, sef:

i. **diogelu'r** ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg bresennol yn Aberystwyth, Bangor a Choleg y Drindod, Caerfyrddin sef y tri sefydliad a nodir yn yr *Adolygiad Polisi Addysg Uwch* fel y rhai a fydd yn sylfaen i'r gwaith a

ii. **ymestyn a datblygu'r** ddarpariaeth cyfrwng-Cymraeg yn helaethach yn y tri sefydliad hyn ac ar draws y sector i'r colegau hynny lle mae'r cyfrwng-Cymraeg yn brin

Roedd canfyddiad cryf yn y Gweithgor mai anodd fyddai cyflawni (ii), heb ddiogelu (i) yn gyntaf.

1.5 Yn dilyn, ceir trafodaeth ar rai addasiadau a fyddai'n arwain at fersiwn gydgyfnerthedig o'r Cynllun gwreiddiol. Mae'n ffrwyth trafodaethau yn y Gweithgor a chonsensws rhwng yr aelodau y dylid canolbwyntio ar y themâu canlynol:

- Cwtogi ar staffio'r Ganolfan
- Ymestyn y cynlluniau Doethuriaethau a Chymrodoriaethau
- Newidiadau strwythurol
- Cyllido

**2 Yr ystyriaethau a fydd yn arwain at gryfhau sefyllfa cyfrwng Cymraeg**

Yn yr adran hon manylir ar y 4 thema a nodir uchod. Mae 2.1 a 2.2. yn canolbwyntio'n bennaf ar y Ganolfan Gefnogi a'r hyn a nodir yn 1.2 (iii) a (iv) tra bod 2.2. a 2.3 yn ymwneud yn bennaf â'r tymor canolig a'r hyn a nodir yn 1.2 (i) a (ii)

Mae'r sylw a roir yn Argymhellion yr *Adolygiad Polisi Addysg Uwch* i adeiladu strwythur ar gyfer cyfrwng Cymraeg ar y sylfaen sydd eisoes mewn tri sefydliad [gweler 1.1(ii)] yn arwain at yr angen i gynnal y ddarpariaeth honno yn y lle cyntaf. Roedd Cynllun gwreiddiol y Ganolfan Gefnogi yn rhoi blaenoriaeth i ymestyn y Gymraeg yn gyfrwng trwy sefydlu strwythurau ar gyfer cydweithio i gynllunio a chyflwyno modiwlau penodol. Gellid dadlau ei fod yn rhoi blaenoriaeth i'r sefydliadau hynny lle nad oes traddodiad cryf o addysgu trwy'r Gymraeg.

Y dull mwyaf amlwg a sylfaenol o safbwynt cynnal yr hyn sy'n bod eisoes yw sicrhau bod cyflenwad digonol o ddarlithwyr ar gael i gynnal a chryfhau'r ddarpariaeth honno ac yna i ymestyn i sefydliadau eraill. Dyna sy'n uniongyrchol gyfrifol am y newid cyfeiriad hwn a'r hyn sydd yn 2.1, 2.2. Mae'n cysylltu'n anuniongyrchol ag adrannau 2.3 a 2.4 yn ogystal.

Mae canlyniadau holiadur diweddar a ddosbarthodd Dr Cen Williams i staff y sefydliadau yn dangos fod yn agos i 40% o staff y sefydliadau sy'n dysgu trwy'r Gymraeg (neu a allai wneud hynny) dros 50 oed. Gallai hyn arwain at argyfwng yn y sector sy'n tanlinellu'r angen brys i baratoi darlithwyr hyfedr a hyderus i ddysgu trwy'r Gymraeg a/neu'n ddwyieithog. Oherwydd mai dyma'r angen blaenaf, argymhellir cynnydd yn niferoedd y Doethuriaethau a Chymrodoriaethau. Bydd y darpar ddarlithwyr hyn sydd ar y Cynllun Cymrodoriaethau yn cyflawni peth o'r gwaith darparu modiwlau a fyddai'n rhan o faich gwaith y Ganolfan yn y cynllun gwreiddiol gyda ddwy garfan yn cyfrannu i'w hadrannau eu hunain yn y colegau unigol.

**2.1 Cwtogi ar staffio'r Ganolfan**

Mae'r Gweithgor o'r farn, felly, bod gormod o gyllid yn y cais gwreiddiol (tua 60%) yn cael ei gyfeirio at staffio'r Ganolfan. O ystyried hefyd fod newid pwyslais wedi bod yn nod a rôl y Ganolfan bellach, [gweler 1.2(ii)] mae'r Gweithgor o'r farn bod angen i fwy o'r cyllid gael ei ddefnyddio i gryfhau sefyllfa staff cyfrwng Cymraeg yn y sefydliadau.

Yr argymhelliad yw cwtogi ar staffio'r Ganolfan trwy ddileu'r swyddi canlynol:

(Gweler y Ddogfen wreiddiol 1.2 (1) ac 1.2 (2) ac adran 2.2)

Swyddog Ymchwil / Datblygiad Staff

Cyfieithwyr Academaidd (x 2)

Arbenigwyr Terminoleg (x 2)

1 Ysgrifenyddes

Uno swydd y Swyddog cyfrifiadurol / gwe gyda'r dylunydd pecynnau addysgol

Golyga hyn gadw'r swyddi a ganlyn:

Cyfarwyddwr

Is-Gyfarwyddwr

Swyddog Cynorthwyol

Swyddog gweinyddol / Cyllid

Swyddog Cyswllt Ysgolion a Cholegau Addysg Bellach (newid teitl a natur y swydd hon o Swyddog Marchnata)

Cyfieithwyr academaidd (x 2)

Ysgrifenyddes

Swyddog Cyfrifiadurol / Dylunydd Rhaglenni Addysgu (cyfuno dwy swydd)

Byddai'r cyfrifoldeb am ymchwil i ddulliau cyflwyno cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ac am gyrsiau datblygu staff yn dod yn rhan o ddyletswyddau un o'r tîm craidd h. y. un o'r tair swydd a restrir gyntaf uchod. Trwy gydweithio gyda chyrff megis Bwrdd Gwybodau Celtaidd Prifysgol Cymru ac Uned Derminoleg Prifysgol Cymru, Bangor gellid diogelu arbenigedd ac arweiniad ym maes terminoleg. Oherwydd cynnydd yn yr ysgoloriaethau a'r ffaith bod gan Aberystwyth, Bangor a Choleg y Drindod eu timau cyfieithu, gellir cwtogi ar gyfieithwyr Y Ganolfan a chryfhau'r cydweithio rhyngweithiol sydd rhwng y cyfieithwyr yn y sefydliadau. Gellir cyfuno'r ddwy swydd sy'n ymwneud â phecynnu deunyddiau dysgu a defnyddio technoleg ar gyfer cyflwyno trwy elwa ar fframwaith a systemau dysgu-o-bell sydd eisoes yn cael eu datblygu mewn sefydliadau eraill megis Prifysgol Morgannwg. (Gweler argymhelliad 2, Pennod 3 yr *Adolygiad Polisi Addysg Uwch*.) Rhaid neilltuo cyllid felly ar gyfer y cydweithio hwn.

## 2.2 Ymestyn y cynlluniau Doethuriaethau a Chymrodoriaethau

Cred y Gweithgor y gellir cynyddu'r niferoedd a fydd yn derbyn Cymrodoriaethau a Doethuriaethau o'r flwyddyn gyntaf trwy'r arbediadau ariannol a wneir yn dilyn y cwtogi ar staffio'r Ganolfan (2.2 yn y ddogfen wreiddiol). Byddir yn cryfhau'r ddarpariaeth hon gan gynyddu'n sylweddol y niferoedd a fydd yn elwa, i 128 dros 10 mlynedd, tra'n cyflymu'r datblygiad yr un pryd. Canlyniad hynny fydd cael cyflenwad o staff cyfrwng Cymraeg mewn amrywiaeth eang o bynciau a fydd ar gael i gryfhau'r ddarpariaeth sy'n bod yn Aberystwyth, Bangor a Choleg y Drindod Caerfyrddin ac ymestyn cyfrwng Cymraeg i'r sefydliadau eraill ac i feysydd newydd galwedigaethol a thechnegol.

Drwy sicrhau nifer gynyddol o staff academaidd yn y sefydliadau bydd modd cynyddu'r ddarpariaeth o safbwynt cyrsiau, a thrwyddynt hwy hefyd, gellir cyflawni llawer o'r gwaith datblygol a oedd yn rhan o'r cynllun gwreiddiol, megis agweddau ar farchnata, datblygu deunyddiau a therminoleg.

Law-yn-llaw â'r broses o gymhwyso darlithwyr mae'n hanfodol bod strategaeth gynhwysol yn cael ei sefydlu gydag ELWa - CCAUC yn chwarae rhan allweddol yn y strategaeth honno. (Gweler argymhelliad 5, Pennod 3, o'r *Adolygiad Polisi Addysg Uwch* ac adran 2.4.)

## 2.3 Newidiadau Strwythurol

**Y nod fydd gweithio tuag at strwythur a fydd yn arwain at**

i. **sicrhau lle canolog i gyfrwng Cymraeg ym mhroses gynllunio'r sefydliadau unigol**

ii. **cynyddu'n sylweddol nifer y darlithwyr cyfrwng-Cymraeg o fewn y system**

iii. **cynllunio a chydlynu twf cyfrwng Cymraeg ar lefel genedlaethol**

iv. **sicrhau bod cyllid digonol i sicrhau twf ac i gynllunio cydberthynas yr holl elfennau a nodir ym mhwyntiau (i) – (iii) uchod.**

**2.4 Cyllido**

Oherwydd yr angen i (a) sicrhau cyflenwad o ddarlithwyr cyfrwng Cymraeg a fydd wedi'u hyfforddi ar gyfer defnyddio'r iaith yn gyfrwng mewn amrywiaeth eang o feysydd a (b) cyflymu'r broses yn sylweddol, yr argymhelliad yw ailgyfeirio mwy o'r cyllid y gofynnwyd amdano yn y cais gwreiddiol at y Cynlluniau Doethuriaethau a Chymrodoriaethau a defnyddio mwy ohono yn y blynyddoedd cynnar.

Byddai hynny'n gam sylweddol ymlaen tuag at ateb y problemau presennol o sicrhau staff cyfrwng-Cymraeg yn y sefydliadau ac yn galluogi'r Gymraeg i ymestyn i feysydd newydd, gan gynnwys meysydd galwedigaethol a thechnegol.

Byddai hyn hefyd yn galluogi'r Ganolfan i gychwyn gyda chwota llawn o staff o fewn ychydig fisoedd i'w sefydlu. Byddai'r arian a arbedir trwy gwtogi ar swyddi'r Ganolfan yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith datblygol y paneli maes yn ogystal ag ar gyfer sefydlu cymrodoriaethau ac ysgoloriaethau.

Yr un pryd, gobeithir gweld ELWa – CCAUC yn cychwyn y broses o ddatblygu strategaeth lawn a chynhwysol ar gyfer cyfrwng Cymraeg er mwyn parhau â'r gwaith ar ddiwedd y deng mlynedd. Byddai hynny'n cynnwys cyllid digonol i'r colegau unigol a'r sector yn genedlaethol i gyflogi'r staff a fyddai wedi derbyn y paratoad hwn ar gyfer gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg.

**3 Y Ffordd Ymlaen**

Yn dilyn cyhoeddi'r strategaeth ar gyfer y sector Addysg Uwch yng Nghymru yn y ddogfen *'Ymgeisio yn Uwch'* a'r argymhelliad:

*"Byddwn yn sicrhau bod CCAUC yn cynnal trafodaethau â'r Bwrdd Dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg i ganfod y ffordd orau o fodloni'r galw,"*

a'r cyfeiriad a geir mewn argymhelliad arall yngl•n â chynyddu'r galw:

*"Byddwn yn gwahodd CCAUC i gomisiynu adroddiad ar lefelau presennol y galw a'r cyflenwad am addysg uwch cyfrwng Cymraeg, y tueddiadau a ragamcenir o*

*ran galw, <u>a’r camau y dylid eu cymryd i gynyddu’r galw</u>."*.

disgwylir i’r Bwrdd Dysgu Trwy Gyfrwng y Gymraeg gydweithio gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru, ELWa – CCAUC, ELWa, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a chyrff perthnasol eraill er mwyn cynllunio strategaeth ar gyfer datblygiad y Gymraeg yn y sector am y deng mlynedd nesaf a thu hwnt.

## 4 Crynodeb

Wrth adolygu’r papur gwreiddiol, daeth nifer o ragdybiaethau sydd yn allweddol i’r datblygiad yn gliriach, sef:

i. bod angen fframwaith cadarnach a fydd yn rhoi blaenoriaeth i hybu addysgu, dysgu a dysg trwy’r Gymraeg yn ei holl agweddau, yn genedlaethol ac yn sefydliadol

ii. mai rhan o broses yw’r hyn a argymhellir yma, ac y bydd y Bwrdd Dysgu Drwy gyfrwng y Gymraeg (BDDGG) yn chwarae rhan flaenllaw er mwyn dod â’r drafodaeth hon i sylw’r sector yn gyflawn ac i sylw’r cyrff cynllunio o fewn y sefydliadau unigol

iii. y bydd y BDDGG trwy’r Ganolfan Gefnogi yn, cynllunio, cynghori, cydlynu ac yn cydgysylltu ar draws y sector

iv. bod angen cynnydd sylweddol yn nifer y staff dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg

v. bod angen denu mwy o fyfyrwyr i’r sector o’r ysgolion a’r colegau trydyddol wrth gynyddu a chreu’r galw am gyrsiau newydd ac y bydd codi proffil dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn genedlaethol yn arwain at fwy o ddiddordeb a chynnydd yn yr ysgolion a’r colegau trydyddol hynny

vi. y bydd y Ganolfan yn cael ei staffio’n llawn o’r dechrau er mwyn hwyluso’r datblygiadau

vii. y bydd cydweithio mwy gyda chyrff (e.e. Bwrdd Gwybodau Celtaidd a Chanolfan Dermau Prifysgol Bangor) ac y gellir defnyddio systemau (e.e. systemau technoleg dysgu Prifysgol Morgannwg) sydd wedi sefydlu eisoes, i wneud iawn am rai o’r arbenigeddau sydd bellach wedi’u hepgor wrth gwtogi ar staff y Ganolfan

viii. bod twf cyfrwng Cymraeg yn cael ei seilio ar y tri choleg cryfaf o safbwynt y

Gymraeg, yn ôl argymhellion yr *Adolygiad Polisi Addysg Uwch (*gan gymryd bod y tri sefydliad yn deall eu rôl gefnogol er hyrwyddo twf mewn darpariaeth ar draws y sector trwy ddulliau traddodiadol a thechnoleg newydd)

O dderbyn yr hyn a bwysleisir yn y rhagdybiaethau hyn, y prif newidiadau o safbwynt ailgyfeirio'r cyllid yw:

- defnyddio mwy o'r cyllid i hyfforddi darlithwyr i addysgu trwy'r Gymraeg trwy gynyddu'n sylweddol y niferoedd a fydd yn derbyn Doethuriaethau a Chymrodoriaethau

- cwtogi ar staff canolog y Ganolfan er mwyn sicrhau mwy o gyllid ar gyfer hynny

- neilltuo cyllid ar gyfer y cydweithio a nodir uchod.